University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Beth a Ble yn ystod Tymor yr Arholiadau

Sara Nowell-Hughes
Athrawes Gelf a Phennaeth y Chweched Dosbarth

Ysgol Gyfun Y Pant

Er bod y tymhorau go iawn yn anodd eu rhagweld (doedd dim angen i mi wisgo cot y bore 'ma), rydyn ni'n gwybod pryd bydd 'tymor yr arholiadau' yn cyrraedd a sut mae hi'n edrych (a theimlo).

Dylai'r rhybudd ymlaen llawn fy ngalluogi i gynllunio ble i dreulio'r rhan fwyaf o fy amser unwaith i'r llif o arholiadau ddechrau, a beth i'w wneud pan rydw i'n cyrraedd y pwynt hwnnw.

A ddylai swyddfa'r Chweched Dosbarth fod yn hafan ddiogel i mi? A ddylwn i ddechrau cynllunio? Neu efallai y dylwn i fod yn cyflawni ymarferion adfyfyriol?

Ers y Pasg, mae ein rhybudd '6 wythnos ar ôl' wedi pwysleisio pa mor bwysig yw strwythur ac ymroddiad i'n myfyrwyr. Mae ein tîm o staff wedi bod yn canolbwyntio ar ddyddiadau cau, arholiadau ac ymyrraeth gynnar gyda'r bwriad o sicrhau'r canlyniadau gorau posib.

Er bod amodau yn amrywio o sir i sir, gwnaf ymdrech i glustnodi amser ar gyfer y canlynol:

Ymchwil Maes

Ar ôl hanner tymor, mae'n bryd i adael yr ysgol a bod allan ar y maes. Mae cydweithio gydag ysgolion rydyn ni'n eu nabod yn dda, neu sydd wedi'u gosod o fewn grŵp consortiwm, yn adnodd cyfoethog o syniadau newydd, egni a chyd-heriau.

Cynllunio

Onid ydyn ni wastad yn cynllunio?! Yn y tymor byr, rydyn ni'n dueddol o ganolbwyntio ar anghenion uniongyrchol ein myfyrwyr. Yn ogystal â hyn, mae gen i un llygad barcud ar y broses UCAS sydd angen ei dechrau cyn gynted ag y bod hi'n agor. Y tu hwnt i hwn, byddwn ni'n dechrau sôn am sut i weithredu Cyfnod Ymsefydlu'r Chweched Dosbarth i staff, myfyrwyr a rhieni mor gynnar ac effeithiol ag sy'n bosibl.

Adroddiadau Pwnc

Mae newidiadau i hinsawdd yr ysgol yn annog cyfleoedd defnyddiol i ystyried y flwyddyn hyd yn hyn, a'r myfyrwyr niferus y bydd rhaid i mi lunio adroddiadau ar eu cyfer cyn gwyliau'r haf. Canlyniadau sy'n gyrru penderfyniadau ac mae'r adroddiadau hyn yn fesuriad pwysig o gyflawniad y myfyrwyr a sut gyrhaeddon nhw'r man hwnnw.

Reit, dwi ddim yn siŵr os alla i gyfeirio at y tywydd bellach.

Tra bod yr haul yn gwenu…